**HYFFORDDIANT I HYFFORDDWYR CANŴ DŴR GWYN (DŴR LEFEL UWCH) - SESIWN 4**

| | |
|---|---|
| **Teitl y Sesiwn:** | Hyfforddiant Safle Penodol - pwysigrwydd casglu gwybodaeth gywir |
| **Rhif y Sesiwn:** | 4 |
| **Hyd:** | 60 munud |
| **Lleoliad:** | Y Dŵr |
| **Cwch:** | Canŵ (Tandem a/neu Unigol) |

**Amcan(ion) y sesiwn:**

Datblygu dulliau clir i gefnogi'r broses o arsylwi, dadansoddi a gwerthuso'n gywir er mwyn bodloni anghenion unigol y dysgwyr/athletwyr.

Deall sut i strwythuro sesiynau hyfforddi safle penodol er mwyn cael y gorau allan o'r dysgu.

Sicrhau dealltwriaeth o fframweithiau diogelwch a phwysigrwydd safle'r hyfforddwr i gefnogi hyn.

Deall ymddygiadau hyfforddi Dyfarniad Hyfforddi, ymddygiadau dysgu a chreu'r amgylchedd gorau ar gyfer dysgu o fewn yr amgylchedd Dŵr Lefel Uwch.

Datblygu sgiliau gwneud penderfyniadau o ran disgyblaeth.

Datblygu sgiliau padlo technegol a thactegol, ynghyd â gwybodaeth a dealltwriaeth o badlo.

**Cyflwyno'r sesiwn:**

Cynlluniwyd y sesiwn hon er mwyn cadarnhau dealltwriaeth o ymddygiadau hyfforddi'r Dyfarniad Hyfforddi ac edrych ar bwysigrwydd casglu gwybodaeth yn dda drwy arsylwi a dadansoddi'n gywir. Dylai'r hyn oll gefnogi o ran datblygu eu dealltwriaeth dechnegol/tactegol a phwysleisio'r ffordd orau o strwythuro'r sesiwn i gefnogi'r dysgu gan ystyried yr amgylchedd dŵr lefel uwch.  Dylid ystyried, ar bob


Copyright BCAB 2017

**HYFFORDDIANT I HYFFORDDWYR CANŴ DŴR GWYN (DŴR LEFEL UWCH) - SESIWN 5**

| | |
|---|---|
| **Teitl y Sesiwn:** | Sesiynau Hyfforddi |
| **Rhif y Sesiwn:** | 5 |
| **Hyd:** | 120 munud |
| **Lleoliad:** | Y Dŵr |
| **Cwch:** | Canŵ (Tandem a/neu Unigol) |

**Amcan(ion) y sesiwn:**

Cyfle i fyfyrwyr ymarfer eu sgiliau hyfforddi safle penodol, a chael a rhoi adborth

Datblygu dealltwriaeth a gwybodaeth dechnegol/tactegol ar gyfer yr amgylchedd dŵr lefel uwch.

Datblygu strategaethau ar gyfer strwythuro a chyflwyno sesiynau i baratoi myfyrwyr ar gyfer yr amgylchedd dŵr lefel uwch.

**Cyflwyno'r sesiwn:**

Rhoi amser i fyfyrwyr feddwl am/cynllunio sesiwn 15 munud o'u dewis yn unigol ar sgil sydd ei angen ar gyfer yr amgylchedd dŵr gwyn lefel uwch (gallai hyn fod wedi cael ei drefnu yn yr ystafell ddosbarth fel rhan o'r rhagarweiniad). Dylid canolbwyntio ar ddatblygu sgil technegol mewn amgylchedd dŵr hawdd/cymedrol safle penodol, gan edrych ar sut y mae datblygu sgiliau technegol mewn dŵr haws yn cael ei ddefnyddio i baratoi ar gyfer dŵr lefel uwch.

15 munud i bob myfyriwr gyflwyno ei sesiwn, ac yna 10 munud o drafodaeth a chymorth ymarferol pellach gan y tiwtor.

Ystyriaethau i'w trafod:


Copyright BCAB 2017

## HYFFORDDIANT I HYFFORDDWYR CANŴ DŴR GWYN (DŴR LEFEL UWCH) - SESIWN 7

| | |
|---|---|
| **Teitl y Sesiwn:** | Manteisio'n Llawn ar yr Amgylchedd |
| **Rhif y Sesiwn:** | 7 |
| **Hyd:** | 30 munud |
| **Lleoliad:** | Ystafell Ddosbarth a'r Dŵr |
| **Cwch:** | Canŵ (Tandem a/neu Unigol) |

**Amcan(ion) y sesiwn:**

Deall sut i wneud y defnydd gorau posibl o amgylchedd o fewn sesiwn gyfyngedig er mwyn gwella'r dysgu a'i werth mewn amgylchedd dŵr lefel uwch.
Datblygu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o ran rheoli'r amgylchedd hyfforddi mewn dŵr lefel uwch.
Deall pwysigrwydd sgiliau penderfynu da a'r gallu i addasu ac ymateb i'r amgylchedd ac i anghenion y dysgwyr.

**Cyflwyno'r sesiwn:**

Er mwyn cyflawni amcanion y sesiwn, gall y sesiwn gael ei chyflwyno yn ymarferol ar y dŵr, yn fyfyriol yn yr ystafell ddosbarth neu drwy gymysgedd o'r ddau.
Enghreifftiau:

1. Y tiwtor i arwain sesiwn hyfforddi gyfyngedig gan ddefnyddio'r amgylchedd mewn modd sy'n datblygu anghenion cyflawni sgil unigol y myfyrwyr. Yn dilyn/yn ystod y sesiwn, y tiwtor i fynegi ar lafar/annog trafodaeth ynghylch sut y defnyddiwyd cyfyngiadau'r amgylchedd, sut roedd y sesiwn wedi cael ei rheoli er mwyn galluogi hyn i ddigwydd, a'r penderfyniadau a oedd angen eu gwneud yn ystod y sesiwn i addasu a bodloni anghenion y myfyrwyr yn ogystal â'r newidiadau/heriau amgylcheddol.


Copyright BCAB 2017

2. Y tiwtor i arwain sesiwn hyfforddi gyfyngedig gan ddefnyddio'r amgylchedd mewn modd sy'n datblygu anghenion cyflawni sgil unigol y myfyrwyr. Yn yr ystafell ddosbarth yn dilyn y sesiwn, y tiwtor i fynegi ar lafar/annog trafodaeth ynghylch sut y defnyddiwyd cyfyngiadau'r amgylchedd, sut roedd y sesiwn wedi cael ei rheoli er mwyn galluogi hyn i ddigwydd, a'r penderfyniadau a oedd angen eu gwneud yn ystod y sesiwn i addasu a bodloni anghenion y myfyrwyr yn ogystal â'r newidiadau/heriau amgylcheddol.
3. Yn yr ystafell ddosbarth yn dilyn hyfforddiant y diwrnod, y tiwtor annog trafodaeth ynghylch sut y defnyddiwyd cyfyngiadau'r amgylchedd, sut roedd y sesiynau wedi cael eu rheoli er mwyn galluogi hyn i ddigwydd, a'r penderfyniadau a oedd angen eu gwneud yn ystod y sesiynau i addasu a bodloni anghenion y myfyrwyr yn ogystal â'r newidiadau/heriau amgylcheddol.


Copyright BCAB 2017

